# Cenn@d

MEDI 22 2021 — YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* — RHIF 30

## Achub Tŷ Mawr, Wybrnant

Gŵyr pob un o ddarllenwyr ein papurau enwadol am bwysigrwydd y tŷ unigryw hwn yn hanes Cymru, ac yn arbennig yn hanes Cristionogaeth ein gwlad. Digon yw eich atgoffa mai yma, ym 1545, y ganwyd yr Esgob William Morgan a gyfieithodd y Beibl i'r Gymraeg i'w gyhoeddi ym 1588 a'i ailgyhoeddi ym 1620 dan olygyddiaeth Dr John Davies, Mallwyd.

Bellach, daeth yn argyfwng yn hanes Tŷ Mawr, Wybrnant, yr hen dŷ annwyl hwn; i filoedd o Gymry – boed Gristionogion neu beidio, dyma'r eiddo pwysicaf a fedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ein gwlad. Pan oresgynnwyd Cymru gan wenwyn y Covid-19 yng ngwanwyn 2020, dioddefodd Tŷ Mawr, Wybrnant, yntau yr effeithiau fel pawb arall. Fe'i caewyd, fe'i gwagiwyd, ac fe'i gadawyd yn ddiymgeledd a di-fudd. Ysywaeth, mae'n parhau i fod felly.

Y mis hwn, yn *Y Faner Newydd*, ymddangosodd cri o'r galon gan un o drigolion blaenllaw ardal Penmachno, gerllaw'r Wybrnant, yr hanesydd Eryl Owain, yn ymbil am i rywun neu rywrai yn rhywle godi dani i gael yr Ymddiriedolaeth gyndyn i symud tuag at ailagor y lle ac arddangos y trysorau arferai fod yno. Cefais innau ei ganiatâd caredig i ddyfynnu o'i erthygl daer sy'n egluro'r sefyllfa drist bresennol yn gyflawn a thaclus:

'Er nad yw'n syndod o gwbl fod Tŷ Mawr Wybrnant, fel gweddill eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, wedi bod ar gau ers gwanwyn 2020, mae yna ansicrwydd ynglŷn â'i ddyfodol. Achoswyd pryder pan ddeallwyd fod dodrefn hynafol y tŷ a'r casgliad cyfoethog o Feiblau, gan gynnwys Beibl 1588, wedi eu symud oddi yno. A'r haf diwethaf gadawodd Nathan Munday, ceidwad Tŷ Mawr, ei swydd sy'n golygu nad oes neb bellach yn byw gerllaw i warchod y safle. Does ryfedd felly fod llawer yn holi beth sy'n digwydd ac, yn wir, a fydd Tŷ Mawr yn ailagor o gwbl.



'Yn ôl Trystan Edwards, Rheolwr Cyffredinol Eryri a Llŷn i'r Ymddiriedolaeth, roedd bwriad i ailagor mewn rhyw fodd neu'i gilydd yng ngwanwyn 2021 ond nad yw hynny'n bosib mwyach, felly mae'r cynllun hwnnw wedi ei ohirio am flwyddyn. Er hynny, dywed bod posibilrwydd y bydd rhywbeth yn cael ei drefnu yn Nhŷ Mawr eleni, efallai rhyw un penwythnos tua diwedd yr haf a chael y Beiblau yn ôl dros dro – pe byddai amgylchiadau'n caniatáu.

'Eglurodd fod yn rhaid rhoi'r Beiblau pwysicaf i'w cadw'n ddiogel mewn storfa bwrpasol yng Nghastell y Waun, gan na ellid eu gadael yn Nhŷ Mawr a'r lle yn wag, a bod y dodrefn, a oedd ar fenthyg o Sain Ffagan, wedi eu dychwelyd yno gan fod y cytundeb wedi dod i ben.

'Ar hyn o bryd, nid oes bwriad i benodi ceidwad o'r newydd i ofalu am Dŷ Mawr, sy'n golygu na fydd yn agored ar amseroedd sefydlog a rheolaidd, fel y gall pobl ymweld heb orfod trefnu ymlaen llaw. Gobeithio y bydd yr Ymddiriedolaeth yn gallu ailystyried hyn yn y dyfodol.

'Dywed Trystan fod yr Ymddiriedolaeth yn awyddus iawn i drafod ac i dderbyn barn y cyhoedd cyn symud ymlaen. Gwnaed gwaith gwych a gwariwyd yn sylweddol iawn ar addasu'r eiddo yn Wybrnant ar gyfer dathlu pedwar canmlwyddiant cyfieithu'r Beibl yn 1988. Dylid adeiladu ar hynny fel bod cyfleoedd rhwydd i ni, Gymry, a phobl o bedwar ban byd i ymweld â Thŷ Mawr a bod y profiad yn un cyfoethog ac yn fodd i ddathlu'n deilwng gorchestion un o brif fawrion ein cenedl.'

Mor hawdd y gellir rhestru nifer o resymau pam fod Tŷ Mawr, Wybrnant, â chyfraniad mor amhrisiadwy i'n hanes diweddar fel cenedl.



1. Cawsom *Y Beibl Cysegr Lân* yn ein hiaith, llais Duw a ddefnyddiwyd ganddo i achub miloedd;
2. Cawsom safon o fri i'n hiaith a thrwy hynny i'n llenyddiaeth;
3. Dros y canrifoedd diweddar bu'n fodd, yn fwy nag unpeth arall, i'n gwneud yn genedl lythrennog, ddiwylliedig a gwaraidd;
4. Ni allwn wadu, yn anad unpeth arall, mai'r Beibl a gadwodd ein hiaith yn fyw.

Ac yn Nhŷ Mawr, Wybrnant, y ganwyd y gŵr a ddefnyddiwyd i wireddu'r pethau hyn. Gofynnaf: onid dyletswydd, yn wir braint, Cristionogion Cymru'n fwy na neb arall, ydi rhoi pwysau mawr a di-ildio ar yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i dynnu'i hewinedd o'r blew er sicrhau dyfodol teilwng a diogel i'r hen dŷ hanesyddol hwn, ein trysor amhrisiadwy? A all ein henwadau (gan gynnwys yr Eglwys yng Nghymru, wrth gwrs), yn swyddogol ac unedig, fod ar flaen y gad mewn ymgyrch benderfynol a diflino i roi pwysau ar berchnogion y lle i'w ailagor yn ddiymdroi er cadw'r cof am William Morgan a'i gamp ysblennydd yn fyw 'i'n plant ac i blant ein plant yn dreftadaeth dragwyddol'?

Dyna'n wir ydi cwestiwn Eryl Owain yntau wrth gloi ei erthygl bwysig :

'Tybed beth ddaw o Dŷ Mawr yn y dyfodol? Mae'n wir nad yw'r ymwelwyr yn niferus. Nid yw ei leoliad anhygyrch yn ei gwneud yn rhwydd i fynd yno, ond mae hynny'n rhan o apêl y lle. Dylem edrych ar gartref cyfieithydd y Beibl i'r Gymraeg fel trysor cenedlaethol, a dylai fod yn hwylus i bobl fedru ymweld â'r lle. Ac wedi iddynt wario'n helaeth iawn ar addasu Tŷ Mawr ac adeiladu Glan-yr-afon, ac ar greu gerddi hynafol a llwybrau natur gerllaw yn y 1980au, gobeithio y bydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gweld mai datblygu nid cyfyngu sydd ei angen yn Nhŷ Mawr.'

Beth amdani?

*Geraint Jones*
*Trefor*

Souled Out — Tudalen 2

O'r Llwyfan — Tudalen 4

O Gefn Gwlad — Tudalen 5

# Souled Out Ar-lein




Ers i mi ddechrau sleifio i mewn i'r pregethau pan oeddwn i'n 14, ma Souled Out wedi bod yn uchafbwynt pob haf, ac er bod rhaid iddo fod ar lein eleni, roeddwn i'n sicr y byddai'n uchafbwynt eto. Roedd y ffrydiau byw dros y ddau ddiwrnod yn wych – gyda Delyth a Jos ar y diwrnod cyntaf, ac wedyn Megi a Gwil yr ail ddiwrnod, yn gyflwynwyr gwych a oedd yn llwyddo i gadw 'hype' a chyffro Souled Out yn fyw trwy gyfrwng y we! 'Nes i rili mwynhau addoliad y ddau ddiwrnod wedi'u harwain gan Cadi Gwyn ac yna Rhys Hughes; roedd yn f'atgoffa o'r fendith o'n ni'n ei gael yn addoli yn y cnawd, ac yn gneud i mi edrych mlaen at y cyfle nesa i wneud hynny!

Heb os, y fendith fwyaf oedd y pregethau. Ro'dd y cyfweliad gyda Siôn yn ysbrydoliaeth ynghyd â phregeth Dai Hankey, gyda'i bwynt arbennig: 'the more mercy you know you've received, the more thankful you are' yn sefyll allan i fi. Roedd y cyfweliadau gyda Mike Pilavachi, yn benodol ei bwynt am 'moutain tops and valleys', ac yna pregeth Rhys Llwyd, yn enwedig y pwynt am yr angen i ddangos effaith atgyfodiad Iesu yn ein bywydau ni, yn wych i mi ddysgu sut i dyfu yn fy ffydd bersonol. Roedd y cyfweliad gyda'r Ollertons a'u neges o BLESS (begin in prayer, listen, eat, serve, share) a chyfweliad Lois Franks yn wych am ddangos ffyrdd ymarferol o rannu cariad Iesu ag eraill. Roedd hi'n pwysleisio: *focus friendship and faith* wrth efengylu.




Fy hoff ran o Souled Out eleni oedd y fideo'n llawn o dystiolaeth gan nifer o fynychwyr Souled Out cyn cân wych Cadi, 'Gwaredwr'. Roedd e'n bwerus iawn a jyst yn neud i mi fod eisiau gweld pawb eto, fel dywedodd Cameron yn y fideo. 'Dan ni'n deulu yn Souled Out, a nath y fideo bwysleisio hynny i mi. Ro'dd e'n wych felly cael mynd wedyn i'r grwpiau bach a threulio amser gyda phawb, ac wrth gwrs roedd y gweithgareddau ychwanegol gyda Megi, Delyth, Jos a Gareth, yn llawn hwyl!

Roedd Souled Out eleni yn ddwy noson o fendith, ac fe wnaeth Duw wir ei ddefnyddio i fy mharatoi'n ysbrydol ar gyfer y brifysgol y flwyddyn nesa: fy mharatoi i ffynnu yn fy ffydd i fy hun, i rannu gair Duw ag eraill, ac i fynd trwy amseroedd anodd yn ffyddiog bod Duw gyda fi. Ac ar ddiwedd y flwyddyn bydd Souled Out gwych i mi edrych ymlaen ato eto!

*Tomos Edwards*
*Llanuwchllyn*




S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol*** – Nos Sul, 26 Medi, am 7:30yh

Bydd Nigel yn cwrdd â chriw sy'n syrffio i roi hwb i'r enaid – criw'r Christian Surfers. Bydd Nia yn Sir Benfro yn rhoi help llaw i gadw ein traethau'n lân ac yn dysgu mwy am bartneriaeth rhwng y Parc Cenedlaethol a busnesau lleol i ddarparu cadeiriau olwyn ar draethau Cymru. Daw'r canu mawl o leoliad unigryw, yn yr awyr agored wrth Eglwys y Santes Fair, Talbenny, o dan arweiniad Marilyn Lewis a chyfeiliant Band Pres Wdig.

BBC radio cymru

Sul, 26 Medi – ***Oedfa Radio Cymru***, 12:00yp
Gwasanaeth yng ngofal Manon Ceridwen James, Sefydliad Padarn Sant

***Caniadaeth y Cysegr***, Dydd Sul, 26ain Medi am 7:30yb a 4:30yp – Non Vaughan Williams sy'n dathlu a chofio emynwyr a chyfansoddwyr gafodd eu geni neu a fu farw 150 mlynedd 'nôl.

# Agor y Ffowndri

Dros y pedair blynedd diwethaf mae Jon ac Emma Birch wedi rhannu ag Undeb Bedyddwyr Cymru eu gweledigaeth o sefydlu tŷ cymunedol cenhadol lle gall Cristnogion fyw gyda'i gilydd i fod yn fendith ac yn dystion i'r gymuned gyfagos. Mae'r enwad erbyn hyn yn falch iawn o gyhoeddi bod Jon ac Emma bellach wedi symud i'w cartref newydd – o'r diwedd! Ar ôl blynyddoedd o ddyfal weddïo, chwilio ac aros am y tŷ iawn, mae eu gweledigaeth wedi cymryd cam mawr ymlaen. Gyda chefnogaeth Cymdeithasau Bedyddiedig lleol (Cymanfa Dwyrain Morgannwg a Bedyddwyr de Cymru) dechreuon nhw'r broses hir o weithio trwy'r holl fanylion ymarferol a chyfreithiol.

Yn y pen draw, fel elusen gofrestredig ffurfiol gydag ymddiriedolwyr mewn lle, roedd modd iddynt wneud cais i Gorfforaeth Undeb Bedyddwyr Cymru a gytunodd i fenthyg yr arian i brynu eiddo yn ardal Ton-teg, lle mae'r teulu yn aelodau gydag Eglwys y Bedyddwyr, Salem.

Mae Jon ac Emma yn disgrifio'r cyfnod hwn o aros ac ymbaratoi:

'Y ddwy thema fawr rydym wedi bod yn gweithio drwyddynt gyda Duw dros y blynyddoedd diwethaf yw ufudd-dod a dyfalbarhad. Mae'n debyg mai ein her fwyaf wrth geisio dilyn Duw gyda'r weledigaeth hon oedd ein bod yn gwybod beth roedd e'n ein galw i'w wneud, ond nid y manylion sut, na pha mor hir y byddai'n ei gymryd.



'Ar sawl pwynt ar hyd y daith hon rydym wedi wynebu rhwystrau mawr, ond bob un tro mae Duw wedi agor ffordd i ni fel y medrem ddal ati, er bod yna amgylchiadau oedd yn ymddangos fel petai'n amhosibl eu datrys. Rydym hefyd wedi cael ein calonogi'n fawr gan Gristnogion eraill yr ydym wedi cwrdd â nhw ac wedi gweddïo â nhw. Heb wybod am ein hamgylchiadau personol, maen nhw wedi bod yn anogaeth sy'n gwbl berthnasol i'n sefyllfa, gan gadarnhau galwad Duw i ddyfalbarhau â'r weledigaeth hon.

'Wrth edrych yn ôl, mae amseriad Duw yn ymddangos yn berffaith. Wrth i ni ddechrau ar y rhan ymarferol newydd hon o'n gweinidogaeth drwy'r tŷ cymunedol cenhadol hwn, rydym yn gwneud hynny yn dilyn ehangu sylweddol yng ngweinidogaeth banc bwyd ein heglwysi yn ystod y cyfnod clo. Nid gor-ddweud ydi honni ein bod wedi meithrin mwy o berthnasoedd a chysylltiadau yn ein cymuned yn ystod y flwyddyn ddiwethaf na'r tair blaenorol gyda'i gilydd, ac mae'n gyffrous meddwl sut y bydd Duw yn defnyddio'r rhain ar gyfer cenhadaeth.'

Ar ôl edrych ar nifer o dai addas, ddiwedd 2020 daethant o hyd i un â digon o le i ymgysylltu â'r gymuned leol drwy letygarwch, a darparu ar gyfer Cristnogion eraill sy'n rhannu'r weledigaeth ac a fydd yn ymuno â nhw yn y Ffowndri.

Mae Jon ac Emma yn siarad am y camau nesaf a sut y gallwn ni weddïo drostynt:

'Yn ystod y misoedd i ddod, byddwn yn chwilio am Gristnogion i ymuno â ni fel cyd-letywyr tymor byr a thymor hir, i fod yn rhan o gymuned ag amserlen ddyddiol ac wythnosol o rannu bwyd, gweddi a lletygarwch. Ein nod yw creu awyrgylch yn y gymuned sy'n annog pobl i fod yn ddisgyblion Crist ac yn rhyddhau pobl i ymuno â Duw mewn cenhadaeth. Gweddïwch fod Duw yn rhoi'r cysylltiadau i ni gwrdd â'r bobl iawn i ymuno â ni yma.

'Rydym hefyd yn ceisio mynd ar drywydd cenhadol drwy fenter gymdeithasol (busnes elusennol) yn y gymuned. Fel elusen ein hunain, gallwn gael mynediad at gyllid i gyflawni hyn o amrywiol ffynonellau, ond mae angen help Duw arnom i'n cysylltu â'r bobl iawn sydd â phrofiad busnes i helpu'r weinidogaeth hon i ffynnu.

'Gweddïwch hefyd am fendith Duw ar y busnes ymarferol iawn o ddodrefnu'r tŷ cymunedol ac y gellir gwneud y gwelliannau ymarferol y mae angen i ni eu gwneud cyn gynted â phosibl!'

Gweddïwch dros Jon ac Emma wrth iddyn nhw gymryd y camau arloesol, beiddgar hyn gyda'i gilydd a gofynnwch i Dduw eu bendithio fel teulu yn ystod y misoedd nesaf.

# *Cristion* – Medi / Hydref 2021

'Munud i Feddwl' gan John Gruffydd Jones, 'Y Gorlan Ddarllen' gan Gwilym Tudur, Tudalen y Plant 'Cristion Bychan' gan Alyson Evans, cerdd newydd, 'Hadau', gan y Prifardd Dafydd John Pritchard – dyna ychydig yn unig o'r hyn a geir yn y rhifyn cyfredol o *Cristion*.

Mae'r rhifyn yn cwmpasu tymor diolchgarwch, ac fe adlewyrchir hynny yn y thema a ddewiswyd, sef 'Dwyn Ffrwyth'. Difyr iawn, wrth bori drwy'r cynnwys, yw gweld sut mae pawb sydd wedi cyfrannu wedi ymateb i'r thema, gyda rhai erthyglau'n pontio'n naturiol â'r cyswllt amaethyddol. Cawn ein tywys i faes y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd gan y Parchedig Ian Morris, a chael cipolwg ar ei weinidogaeth arbennig yno fel un o gaplaniaid y sioe. Ystyried cwestiwn a wnaiff Owain Davies, a'r cwestiwn hwnnw yw pennawd ei erthygl: 'A oes lle i ddiolchgarwch yn y byd amaeth modern?'

Edrych ar gyfraniad a dylanwad unigolion penodol a wnaiff eraill, gan fynd ymlaen i drafod sut mae eu bywydau wedi dwyn ffrwyth. Er enghraifft, dod i adnabod cymeriad yn ei gofalaeth gyntaf yng ngogledd Swydd Warwick a wnawn yng ngholofn y Parchg Ddr Jennie Hurd, ac yn erthygl yr Esgob Edwin Regan cyflwynir ni i fywyd, gwaith a dylanwad Charles de Foucauld.




Unwaith eto y tro hwn, cawn yr erthygl 'Ffydd ar Daith', a chan fod Sul y Beibl yn prysur agosáu, cawn ein tywys ar daith Mary Jones gan Mary Thomas. Drwy ddilyn y daith, dysgu am yr hanes, a'n cyflwyno i amrywiol adnodau, sylweddolwn fel y bu i daith y ferch hon ddwyn ffrwyth drwy ysbrydoli Thomas Charles ac eraill i sefydlu Cymdeithas y Beibl.

Gŵr o Ynys Môn yw Seiriol Edwards, ac ef sy'n rhannu 'Gair o'r Galon' â ni y tro hwn. Drwy ei ymatebion gonest i'r cwestiynau, dysgwn am ei fagwraeth yn y rheithordy, y dylanwadau fu arno yn ystod ei ieuenctid, y modd y bu iddo gychwyn teithio ar hyd a lled yr ynys yn arwain oedfaon, a'i obeithion i'r dyfodol.

Yn ei erthygl yntau, mae'r Parchedig Siôn Rhys Evans yn rhannu stori gyfredol am sut mae Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor yn dwyn ffrwyth, a hynny drwy agor ei drysau fel canolfan frechu ar gyfer brechiadau COVID-19. Dywed, ym mharagraff ola'r erthygl, "A'r her genhadol i ni – geidwaid y drysau fu ar gau am yn rhy hir – ydi gweld ym mhob un sy'n croesi'r trothwy lun a delw Duw, ein cyd-garedigion yng Nghrist, y mae croeso tragwyddol iddynt ar ei aelwyd ac yn ei gariad".

Cipolwg yn unig yw hwn ar yr ystod eang o erthyglau a chyfranwyr sydd yn y rhifyn cyfredol ac mae'n cynnwys llawer mwy na'r hyn sydd wedi ei grybwyll yn yr erthygl hon. Mae ar gael yn eich siopau lleol, neu drwy danysgrifio ar ein gwefan: www.cristion.net, a hyderwn y byddwch yn profi bendith o'i ddarllen.

*Carwyn, Dylan a Nerys*
*Golygyddion*

# O'r Llwyfan

### *Sut mae Duw yn ein galw i weithio a gwasanaethu heddiw?*

Cyn cyfnod y Covid-19 byddai aelodau o bwyllgorau Undeb Bedyddwyr Cymru yn teithio o bob rhan o Gymru i Gaerfyrddin ddwywaith y flwyddyn i dreulio rhyw ddwy awr neu dair mewn cyfarfod yn y Llwyfan. Ond ers mis Mawrth 2020 cawsom ein gorfodi i gyfarfod mewn ffordd wahanol, a chynhaliwyd pob un o gyfarfodydd y pwyllgorau drwy gyfrwng Zoom. Nid yn unig yr oedd y trefniant hwn wedi ein galluogi i arbed amser a chostau teithio, ond bu'n gyfle hefyd i leihau'r allyriadau carbon, sef ystyriaeth hollbwysig wrth inni wynebu'r argyfwng newid hinsawdd.

Ein bwriad ar hyn o bryd yw parhau â'r drefn o gyfarfod yn ddigidol gan fod hynny wedi gweithio'n hwylus ac effeithiol. Mae'n bur debyg y bydd angen trefnu cyfarfodydd wyneb yn wyneb maes o law, yn enwedig pan fydd aelodau newydd yn ymuno â'r pwyllgorau, ond am y tro ein bwriad yw parhau i ddefnyddio Zoom gan adolygu'r sefyllfa yn gyson.

**Ydy, mae'n hynod drist gweld y 'blychau' yn diflannu, ond nid yw Duw yn diflannu. Nid yw'r cysegredig yn diflannu gyda'r cysegr ac nid yw'r addoliad yn diflannu gyda'r addoldy.**

Yn yr un modd mae nifer o eglwysi wedi datblygu oedfaon digidol gan adeiladu'n arbennig ar y trefniadau a fabwysiadwyd ganddynt yn ystod y cyfnod clo. Bu'r trefniadau yma yn rhai cyffrous a bendithiol, ac yn sicr y mae angen i ni barhau i ddatblygu'r ochr ddigidol i'w lawn botensial a manteisio ar y cyfleon newydd i wasanaethu Duw.

Gyda llaw, os yw Eglwys yn dymuno cymorth ariannol i brynu adnoddau neu offer digidol, mae modd gwneud cais i Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen. Ceir manylion ar wefan yr Ymddiriedolaeth: www.jamespantyfedwen.cymru

Ond i ba raddau y mae cyfnod y Cofid wedi ein cynorthwyo o'r newydd i ystyried ein dyfodol fel eglwysi? Sut ydym yn mynd i newid, addasu a datblygu? Ai'r un disgwyliadau sydd gennym o ran aelodau a gweinidogion?

Eglwys ar y cyrion yw Eglwys Iesu Grist yng Nghymru bellach ac felly rhaid ystyried beth yw oblygiadau'r cyd-destun hwn ar gyfer y gwaith o wasanaethu Duw. Gwyddom nad oes atebion hawdd i'r cwestiynau yma ac, yn anffodus, haws o lawer yw osgoi realiti ein sefyllfa.

Yn ystod y misoedd diwethaf, cawsom ein hysbysu gan un o'n Cymanfaoedd fod o leiaf bedair eglwys wedi penderfynu na fyddant am ailagor eu drysau ar ôl y cyfnod clo. Er y gall hyn ein digalonni, y mae angen inni ddiolch am yr hyn a gafwyd gan yr eglwysi yma ac ymfalchïo yn eu dyfalbarhad a'u dycnwch tra'n tystiolaethu i'r Efengyl dros flynyddoedd lawer. Rhaid derbyn na fydd pob achos yn parhau.

Mae nifer fawr o eglwysi o bob enwad wedi cau eu drysau yn ddiweddar ac fe fydd rhagor yn dilyn yr un llwybr yn ystod y blynyddoedd nesaf. Ydy, mae'n hynod drist gweld y 'blychau' yn diflannu, ond nid yw Duw yn diflannu. Nid yw'r cysegredig yn diflannu gyda'r cysegr ac nid yw'r addoliad yn diflannu gyda'r addoldy. Mae yna reidrwydd arnom felly i ymateb yn gadarnhaol am yr hyn a gafwyd gan ofyn ar yr un pryd: sut mae Duw yn ein galw i weithio a gwasanaethu yng Nghymru heddiw?

Fel pobl Dduw, gwyddom na fyddwn ni fyth yn cael ein hamddifadu o'i bresenoldeb, nac ychwaith o'i arweiniad, ond rhaid dirnad ei ewyllys ar gyfer pob cyfnod, a hynny yn ffyddlon ac yn ddirwgnach. Digon hawdd yw achwyn a digalonni a chwilio am gocyn hitio i ysgwyddo'r bai am ein sefyllfa. Ond mae angen inni godi uwchben hynny a cheisio addasu ac ymateb i ofynion ein hoes drwy fod yn greadigol ac eofn gan arfer mesur helaeth o gywreinrwydd! Ac felly, wrth inni fwrw ati safwn yn gadarn ac yn hyderus yng ngwirioneddau'r Efengyl a gadael i'r Arglwydd Iesu ein tywys ar hyd y ffordd ac ymlaen i'r dyfodol.

*Judith Morris*
*Ysgrifennydd CYffredinol UBC*

## Dathlu'r Diemwnt

Llongyfarchiadau i'r Parchedig Glandwr a Meriel Roberts ar ddathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol yn ystod mis Medi eleni. Pob dymuniad da ar gyfer y dyfodol i'r ddau ohonoch.



## Agor y Llyfr – Swyddog Hyfforddi a Datblygu Rhanbarthol Cymru

Hoffwn dynnu eich sylw at swydd ran amser sydd wedi'i hysbysebu gan Agor y Llyfr, Cymdeithas y Beibl, ar hyn o bryd, sef Swyddog Hyfforddi a Datblygu Rhanbarthol Cymru.
Gweithio gartref: 15 awr yr wythnos
Cyflog: £24,000–£29,000 (pro rata)
Cytundeb parhaol

Mae dolen i'r dudalen berthnasol ar wefan Cymdeithas y Beibl: https://www.biblesociety.org.uk/about-us/jobs/open-the-book-otb-regional-training-and-development-officer-wales/?welsh.

Os hoffech drafod ymhellach, dewch i gysylltiad. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 26 Medi.

Cymdeithas y Beibl

*Meleri Cray*
*Pennaeth, Cymdeithas y Beibl, Cymru*

# O Gefn Gwlad

## Efo'n gilydd

Wn i ddim be' wnaeth fy atgoffa am y Parch John Roberts, y pregethwr a'r emynydd arbennig fu farw yn 1984, bron i ddeugain mlynedd yn ôl erbyn hyn. Clywed canu un o'i emynau mewn gwasanaeth radio neu deledu, falle. Ta waeth am hynny, cofio am y dywediad 'efo'n gilydd' ganddo ac un o'i arferion pan gynhaliai oedfa wnes i.

Un garw oedd John Roberts, ac rwyf wedi adrodd yr hanes yma o'r blaen ond nid yn y golofn hon. Roedd o'n pregethu yng Ngwyddelwern un tro pan oedd Nansi wedi dod i aros. Ac meddai fy mam wen amdanom wrth siarad efo fo cyn mynd i'r capel, 'Mae'r plant 'ma'n priodi mewn pythefnos.' Roedden ni'n flin ei bod wedi agor ei cheg ond mi ofynnodd o fydden ni yn oedfa'r nos hefyd, cwestiwn od, ond erbyn diwedd y dydd mi wyddem pam. Mi newidiodd ei bregethau yn y ddwy oedfa a phregethu'r bore ar gariad a'r nos ar gartre.

Mynd i gyfeirio at un o'i arferion wrth weddïo yr oeddwn i, fodd bynnag. Y mae'r weddi mewn gwasanaeth yn weddi gyhoeddus, ac y mae pawb yn y gynulleidfa â'u pennau i lawr a'u llygaid wedi cau er mwyn canolbwyntio. Y drafferth, wrth gwrs, yw fod meddyliau yn crwydro'n aml a does wybod i ble y byddan nhw'n mynd!

**Ond, er y pwysleisir yn aml mai mater personol yw ffydd a chred, eto, i mi, yn y cydymwneud a'r cyd-drafod a'r cydaddoli y mae'r fendith fwyaf i'w chael.**

Ond roedd gan John Roberts ffordd arbennig o sicrhau bod yna wrando ar y weddi, a hynny trwy gael pawb i gydadrodd pennill o emyn efo fo – dau neu dri, falle, yn ystod y weddi gyfan. Rhywbeth fel hyn: 'Gad i ni, O Arglwydd, yn ystod y munudau hyn wrando arnat Ti yn siarad efo ni. **Efo'n gilydd**: "O llefara, addfwyn Iesu …"' Ac yna byddai'n ledio'r gynulleidfa i adrodd y pennill ar ei hyd efo fo. Oedd, roedd cynulleidfaoedd bryd hynny yn gwybod yr emynau, a byddai John Roberts yn sicrhau mai rhai adnabyddus fyddai'n cael eu cydadrodd.

Fodd bynnag, nid y gweddïau na'r penillion sy'n dod i'r meddwl amlaf y dyddiau hyn, ond yr ymadrodd 'efo'n gilydd'. A pha ryfedd. Os gwnaeth y pandemig unrhyw beth i ni yn ystod y misoedd hirfaith hyn, fe'n hamddifadodd rhag gwneud llawer efo'n gilydd. Yr ymadrodd bach hwn yw sail ein holl fyw a bod cymdeithasol. Hebddo, ar ein pennau ein hunain y byddwn.

Ni chawsom gyfarfod a chymdeithasu efo'r teulu, y teulu estynedig yn bendant; ni chynhaliwyd na chyngerdd na drama na chyfarfod cymdeithasol o unrhyw fath. Ni chafodd corau a phartïon gyfarfod i ymarfer, ac yn bwysicach na dim efallai, yn enwedig i bobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain, fe'u hamddifadwyd o gysur ymwelwyr yn galw heibio, gyda hyd yn oed y postmon wedi rhoi'r gorau i gnocio ac yn gwthio pob llythyr a pharsel drwy'r drws.

Ac fe gaewyd drysau ein capeli a'n heglwysi, a chafodd cannoedd, os nad miloedd, yn ein gwlad eu hamddifadu o fod 'efo'n gilydd' yn addoli. Mae'n wir i lawer ddangos blaengaredd ac i wasanaethau gael eu cynnal mewn gwahanol ddulliau trwy ddefnyddio datblygiadau diweddaraf y dechnoleg. A diolch am hynny. Ond nid yw'r rhain i mi, nac i lawer un arall. Y radio a'r teledu, ie, ond fawr ddim arall. Weithiau gallaf ddod o hyd i negeseuon ein gweinidog a gweinidogion eraill ar y we, a darllen *Cenn@d* a'r *Tyst*. Ond, er y pwysleisir yn aml mai mater personol yw ffydd a chred, eto, i mi, yn y cydymwneud a'r cyd-drafod a'r cydaddoli y mae'r fendith fwyaf i'w chael.



Daw, medden nhw, fe ddaw pethe'n ôl i drefn, a byddwn wedi dysgu llawer. Bydd llawer mwy o ddefnyddio'r cyfryngau a alwaf fi yn newydd; ond yr hyn rydw i'n ei obeithio yn fwy na dim yw y cawn fod 'efo'n gilydd' unwaith yn rhagor fel o'r blaen wedi'r caethiwed a'r hirlwm. Wedi'r cyfan, ble cawn ni'r nerth a'r adnoddau ysbrydol angenrheidiol i fyw a bod a gwasanaethu yn y byd hwn? Mae'r ateb gan Gwilym R. yn ei emyn ardderchog. Gofiwch chi o? Dyma bennill:

O fewn dy dŷ, ein Duw,
Y mae tangnefedd drud
A'n nertha ni i droi yn ôl
I'r llym, herfeiddiol fyd.

*Elfyn Pritchard*
*Sarnau*



# Yr Ysbryd Glân a'r Eglwys

**Fel ysgogiad i feddwl am natur ein heglwysi yn y cyfnod hwn o gynnull eto ac ailadeiladu, rhoddir yma'r penodau hynny o lyfr R Tudur Jones, *Yr Ysbryd Glân* (1972), sy'n sôn am waith yr Ysbryd yn yr Eglwys. Bydd chwech ohonynt yn y gyfres.**

## Rhif 2 – Pregethu

Nid oes Eglwys heb bregethu. Fel yr esboniodd Iesu Grist, y mae'r Ysbryd Glân yn fawr ei ofal am y dystiolaeth amdano. Ef yw "prif awdur" y dystiolaeth, fel y dywedai'r Tadau Protestannaidd. Ni fyddai Beibl oni bai am yr Ysbryd Glân. Ef hefyd sy'n tystiolaethu yng nghalonnau credinwyr fod y dystiolaeth yn wir. Dyma "dystiolaeth fewnol yr Ysbryd Glân". Ac y mae hyn yn golygu tri pheth. Yn gyntaf, goleuo'r meddwl i ddeall y dystiolaeth. Yr ydym yn ddyledus i waith esbonwyr ac ysgolheigion trwy'r canrifoedd am y goleuni a roesant inni ar ieithoedd a hanes ac ystyr y Beibl. Er hynny, gwyddom nad yw gwybodaeth felly ynddi'i hun yn mynd â ni yn bell iawn. Gwaetha'r modd, rhaid cydnabod fod math o ysgolheictod Beiblaidd sy'n gwneud y Beibl yn llyfr caeedig i bawb ond arbenigwyr. Yr Ysbryd Glân (nid Eglwys, na Phab nac ysgolhaig) yw gwir esboniwr y Beibl. Yr ail gymwynas y mae'r Ysbryd yn ei gwneud yw cynorthwyo pobl i gredu tystiolaeth y Gair. Y credu hwn sy'n gwneud y Beibl yn berthnasol mewn ffordd bersonol a dirfodol i'r sawl a'i darlleno. Ond nid dyna ddiwedd y daith chwaith. Yn drydydd, y mae'r Ysbryd Glân yn goleuo a chymhwyso'r Beibl fel bod credinwyr yn byw wrtho.

Dyna sut y daw'r Beibl yn llyfr byw inni. Yng ngeiriau Morgan Llwyd: "Yr wyt ti yn gyfarwydd yn yr Ysgrythur, ac y mae penodau'r Beibl ar bennau dy fysedd. Ond a glywaist ti erioed Ddirgelwch y daran a'r gerdd nefol ynghyd ynot dy hunan? ... Os wyt ti yn darllen y llythyren, a wyt yn deall yr Ysbryd ynddi wedi dy holl ddarllen?" – ('Gair o'r Gair', *Gweithiau* ll, 168).

Hynny yw, yr Ysbryd Glân sy'n sicrhau fod y Gair yn farn ("Dirgelwch y Daran") ac yn iachawdwriaeth ("y gerdd nefol") yng nghalon y darllenydd.

Ac yn y gwaith hwn y mae pregethu'n chwarae rhan allweddol. Yn Rhufeiniaid 10:5–18, esbonia Paul ystyr pregethu. Mae'r pregethwr i bregethu "gair y ffydd" – y gair sy'n meithrin ffydd. A dyma'i grynodeb ohono, "os cyffesi â'th enau yr Arglwydd Iesu, a chredu yn dy galon i Dduw ei gyfodi ef o feirw, cadwedig fyddi." Ond ni all neb gredu'r gair hwn heb ei glywed – "a pha fodd y clywant, heb bregethwr?" "Am hynny, ffydd sydd trwy glywed, a chlywed trwy air Duw."

Daw'n eglur yn yr adran yma mai sôn y mae Paul am y pregethu cenhadol. Pwnc y pregethwr yw'r dystiolaeth am weithredoedd achubol Duw yn Iesu Grist. Ac wrth draddodi ei neges, y mae'r pregethwr yn esbonio fel bo'i gynulleidfa yn *deall* ac y mae'n eu gwahodd i *gredu*. Pan gaiff ymateb, mae'n dweud wrthynt beth i'w *wneud*.

Cawn nifer o enghreifftiau llawn yn Llyfr yr Actau o'r pregethu hwn. Dyna bregeth Pedr ddydd y Pentecost. Yn gyntaf, cyhoedda fod oes newydd wedi gwawrio gyda thywalltiad yr Ysbryd Glân. Yna â rhagddo i amlinellu gweinidogaeth Iesu Grist gan esbonio fel yr oedd yn cyflawni hen fwriadau Duw ac fel y cafodd ei groeshoelio. Er hynny atgyfodd ac fe'i dyrchafwyd gan Dduw yn orchfygwr. Derbyniodd gan y Tad "yr addewid o'r Ysbryd Glân" a'i dywallt ar ei bobl. Yn wyneb hyn i gyd, erfynnir ar i'r gwrandawyr edifarhau.

Dyma sylwedd y pregethu cenhadol o hyd. Cyhoeddi gweithredoedd achubol Duw a gwahodd dynion i gredu. Ac nid rhywbeth ar gyfer meysydd cenhadol mewn gwledydd tramor mohono. Rhaid wrtho ym mhregethu beunyddiol yr Eglwys fel na bo neb heb wybod ffeithiau sylfaenol ein ffydd a rhag bod neb yn osgoi'r gwahoddiad i gredu. Heb hynny, amhosibl yw cael ymateb ffydd. Ac y mae min personol ar y credu hwn. Credu yn Iesu Grist ydyw. Pylwyd gwres personol y gwahoddiad trwy ei gyfieithu i dermau cymdeithasol a phwyso ar bobl "i ddod i'r capel" neu "i ddod at grefydd" neu "i aros yn y seiat". Neu i "ddod yn gyflawn aelodau". Ond Iesu yw'r gwir wrthrych.

Y mae'r Ysbryd Glân trwy gyfrwng y gair a bregethir yn cynnull yr etholedigion. Wedi'u cynnull y mae'n eu cynnal, unwaith eto trwy'r gair a bregethir. Dyma'r pregethu bugeiliol. Cawn awgrym o'i gwmpas yn yr anogaeth i Timotheus. "Pregetha y gair; bydd daer mewn amser, allan o amser; argyhoedda, cerydda, annog gyda phob hir-ymaros ac athrawiaeth" (2 Timotheus 4:2). Ceir anogaeth gyfatebol i'r gynulleidfa gan Pedr, "Fel rhai bychain newydd-eni, chwenychwch ddidwyll laeth y gair, fel y cynyddoch drwyddo ef" (1 Pedr 2:2). Yn yr un epistol rhybuddir yr henuriaid, "Porthwch braidd Duw" (1 Pedr 5:2) a chyfieithir y gair "porthi" yn "bugeilio" yn anerchiad Paul i henuriaid Effesus (Actau 20:28). A'r pwynt i'w bwysleisio – a'i bwysleisio'n drwm – yw mai â dysgeidiaeth iachus y porthir y praidd. Ac yn y cyswllt hwn y gorseddir y Beibl ym mywyd yr Eglwys: "Yr holl ysgrythur sydd wedi ei rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw, ac sydd fuddiol i athrawiaethu, i argyhoeddi, i geryddu, i hyfforddi mewn cyfiawnder: fel y byddo dyn Duw yn berffaith" (2 Timotheus 2:16–17).

Y pregethu sy'n argyhoeddi pechaduriaid ac yn adeiladu'r Eglwys yw'r pregethu hwnnw "sy'n iawn-gyfrannu gair y gwirionedd" (2 Timotheus 2:15), y pregethu sy'n glynu wrth air Duw ac yn canoli ar Iesu Grist ac yn ymwrthod â chwedlau (2 Timotheus 4:4) a heb gael ei gylch-arwain "â phob awel dysgeidiaeth, trwy hoced dynion" (Effesiaid 4:16). Nid gwiw anghofio na ddylai pregethu fod "mewn geiriau denu o ddoethineb dynol, ond yn eglurhad yr Ysbryd a nerth" (1 Corinthiaid 2:4).

Gwaetha'r modd, aeth llawer iawn o bregethu Cymru yn ystod y ganrif bresennol yn ymgais i oglais diddordeb pobl neu'n gyfle i awyru argyhoeddiadau personol neu hyd yn oed addurno gair Duw â brodwaith deniadol ond dychmygol. Nid hawdd felly i bregethwr na chynulleidfa ffendio eu ffordd yn ôl o symlrwydd yr apostolion a'u pwyslais deublyg ar ffyddlondeb diwyro i wirionedd yr Efengyl a dibyniaeth ddigwestiwn ar yr Ysbryd Glân i ddangos trwy'r pregethu beth yw "nerth Duw" (1 Corinthiaid 2:5).

*Darlleniadau*:

Eseia 55:8–13; Rhufeiniaid, 10:8–13; 1 Corinthiaid 2; Actau 2:14–36.

*Llyfrau:*

Cyhoeddwyd dwy gyfrol yn cynnwys darlithiau coffa John Williams, Brynsiencyn, ar bregethu gan Argraffty'r M.C., Caernarfon. R. H. Williams, *Dysgu a Phregethu Iesu Grist* (Gwasg John Penry, 1960); O. J. Hughes, *Pregethu'r Gair* (Gwasg John Penry, 1970); Gwilym Hiraethog, *Rhyddweithiau* (1872), 232–46, "Gallu y Pwlpud"; Henry Rees, *Pregethau lll,* 324–47, "Cymhwysderau a Gwaith y Weinidogaeth"; Owen Thomas (Lerpwl), *Pregethau* (1896), *Pregeth xvii, xix a xxi*; W. Morris, Cilgerran, *Pregethau, 17–27,* "Pregethu Crist"; Evan James, *Canonau Pregethu*; Christmas Evans, *Pregethau ll, pregethau liv, lxi, lxxviii;* K. Barth, *Church Dogmatics, l/l*, 98–111; P. T. Forsyth, *Positive Preaching and the Modern Mind* (1907); H. H. Farmer, *The Servant of the Word* (1941); T. L. Parker, *The Oracles of God* (am ddysgeidiaeth Calfin am bregethu).

# Cnewyllyn yr Efengyl
(parhad)

Gwelsom yr wythnos diwethaf fod y groes a'r atgyfodiad yn ganolog i gnewyllyn yr efengyl. A thrwy waith yr Ysbryd Glân daw'r rhinwedd sydd yng Nghrist yn fyw i ni, bob un.

Yn ychwanegol at ddysgu'r bobl am gynnwys yr hyn yr oedd yn ei gyhoeddi am deyrnas nefoedd, gwelwn fod gan Iesu ochor ymarferol i'w weinidogaeth. Roedd yn 'iacháu pob afiechyd a phob llesgedd ymhlith y bobl' (gweler Mathew 4:24; 8:17; 9:35–8). Mae ymateb Iesu i gwestiwn Ioan Fedyddiwr, oedd wedi ei garcharu, yn cadarnhau'r hyn roedd Mathew wedi'i ddweud amdano: 'Ac atebodd Iesu hwy: "Ewch a dywedwch wrth Ioan yr hyn yr ydych yn ei glywed ac yn ei weld. Y mae'r deillion yn cael eu golwg yn ôl, y cloffion yn cerdded, y gwahangleifion yn cael eu glanhau a'r byddariaid yn clywed, y meirw yn codi, y tlodion yn cael clywed y newydd da. ..."' (Mathew 11:4–5; gweler hefyd Ioan 14.11)

Ar ôl anfon y disgyblion allan ar eu cenhadaeth, mae Iesu'n mynd ati i ddysgu a phregethu yn rhai o drefi Galilea. Mae'n amlwg fod yr ymateb a gafodd yn llugoer; enwir tair tref, sef Chorasin, Bethsaida a Chapernaum. Beirniadaeth Iesu ar y trefi hyn yw nad oeddynt yn barod i edifarhau. Mae hyn yn dangos yn glir fod yr alwad i edifarhau'n parhau i fod yn rhan allweddol o'i neges.

Ynghlwm wrth y feirniadaeth ar y rhai oedd yn gwrthod ei neges mae Iesu yn gwneud datganiad allweddol, sy'n datgan bod gwahoddiad agored i bwy bynnag sy'n gwrando ac yn credu: 'Dewch ataf fi, bawb sy'n flinedig ac yn llwythog, ac fe roddaf fi orffwystra i chwi. Cymerwch fy iau arnoch a dysgwch gennyf, oherwydd addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon, ac fe gewch orffwystra i'ch eneidiau. Y mae fy iau i yn hawdd ei dwyn, a'm baich i yn ysgafn.' (Mathew 11:28–30)

***

Cawn nifer o enghreifftiau yn dangos fod Iesu yn falch o weld arwyddion o ffydd. Mae'n canmol ffydd y canwriad a hefyd ffydd y wraig yn ardal Tyrus a Sidon. Mae bob amser yn tynnu sylw at weithred o ffydd, ac yn ceryddu rhai sydd ddim yn gweithredu ffydd. Enghraifft arall o hyn yw'r achlysur pan mae'n ceryddu'r disgyblion (Mathew 16.8–12).



Yn Cesarea Philipi gwelwn Iesu'n defnyddio'r teitl 'Mab y Dyn', gan holi'r deuddeg ynglŷn â beth yr oedd pobl yn ei alw? A chan eu gwthio ymhellach, dyma holi'r deuddeg pwy oedden nhw'n meddwl oedd ef? Mae'n derbyn ateb oedd yn ei blesio'n fawr, sef mai ef oedd y Meseia. Wrth ganmol ymateb Pedr, mae Iesu'n cyfeirio at y ffaith y byddai'n sefydlu ei eglwys, sef corff o rai fyddai'n ei gydnabod ac yn ei addoli, ar sail y gyffes hon.

O hynny allan dechreuodd Iesu ddysgu'r disgyblion am yr hyn yr oedd yn rhaid iddo'i gyflawni yn Jerwsalem. Hyd yma roedd ei weinidogaeth wedi bod yng Ngalilea ac ardaloedd cyfagos. Ond yn Jerwsalem byddai'n cyflawni amcan ei ddyfodiad i'r byd.

Cyn gadael Galilea mae Iesu'n gwahodd Pedr, Iago ac Ioan i fynd gydag ef i fynydd heb fod ymhell o Gapernaum. Yno cafodd y tri disgybl brofiad allan o'r cyffredin, sef gweld Iesu'n cyfarfod Moses ac Elias. Mae Pedr yn cyfeirio at hyn yn ei ail lythyr (2 Pedr 1:16–21).

Er mor aruchel oedd y profiad wrth iddynt ddod i lawr o'r mynydd, maent yn cyfarfod tad oedd mewn gofid oherwydd afiechyd ei fab. Roedd gweddill y disgyblion wedi methu iacháu'r plentyn, ac mae ymateb Iesu yn werth sylwi arno. Nid yn aml y cawn ef yn ymateb cweit mor chwyrn: 'O genhedlaeth ddi-ffydd a gwyrgam, pa hyd y byddaf gyda chwi? Pa hyd y goddefaf chwi?' Pan mae'r disgyblion, a Mathew yn eu plith, yn gofyn iddo pam na allent hwy iacháu'r bachgen, yr ateb yw oherwydd eu diffyg ffydd.

Ydy, mae'n amlwg bod Iesu o hyd yn edrych am ffydd yn ei ddilynwyr!

*Tom Williams*
*Dinbych*

# Cynhadledd Rithiol Dydd Gweddi

O dan amgylchiadau arferol fe fyddai trefniadau ar y gweill ar hyn o bryd ar gyfer dwy gynhadledd, y naill yn y gogledd a'r llall yn y de, i drefnu Dydd Gweddi'r Byd 2022.

Er na fydd cyfle i gwrdd wyneb yn wyneb eleni oherwydd ansicrwydd Covid-19, eto, mae trefniadau ar y gweill i gynnal cynhadledd rithiol dros Zoom. Y dyddiad fydd dydd Mercher, 24 Tachwedd, 10.00–12.00, dan gyfarwyddyd Gwen Wildman, ein cynrychiolydd ar y Pwyllgor Cenedlaethol. Gwahoddwn chwi yn gynnes iawn i'r gynhadledd. Os ydych yn dymuno ymuno, gofynnwn yn garedig i chi gysylltu â Margaret Morgan drwy e-bost ar margaretmaudmorgan@gmail.com rhwng 1 a 17 Tachwedd er mwyn derbyn dolen i'r gynhadledd. Bydd y ddolen yn cael ei hanfon allan erbyn dechrau'r wythnos 21 Tachwedd.

Dyddiad y Dydd Gweddi yn 2022 yw Gwener, 4 Mawrth. Paratowyd y Gwasanaeth gan Chwiorydd Cristnogol Cymru, Lloegr a



Gogledd Iwerddon, a'r thema yw 'Myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer' (Jeremeia 29:1–14). Gofynnwn am eich gweddïau fel paratoad i'r gwasanaethau.

Dymunir pob llwyddiant i chi wrth drefnu ar gyfer 'Dydd Gweddi 2022 – Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon'.

*Parchg Beti Wyn James*
*Parchg Carys Ann*
*Swyddogion Cyhoeddusrwydd*

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Ni a nhw a ni

**Emyn 224 'Fel yr hydd'**

**Gweddi**
Arglwydd Dduw, ceisiwn dy wyneb. Ceisiwn dy ogoniant, ceisiwn dy ras; ceisiwn brofi o'r newydd rym dy gariad adnewyddol yn ein bywydau. Tyrd atom, 'O Grëwr pob goleuni'. Amen.

**Darllen Marc 9:38–50**

Fe ddylai trafod 'syniadau', athrawiaethau, neu feddyliau dyfnion yr efengyl, ein harwain i ostyngeiddrwydd dwfn a diolchgarwch mawr. Ond fe all trafodaethau o'r fath hefyd ein harwain i drafferthion mawr. Gall ganiatáu **i rai** arddangos eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth neu eu dirnadaeth o'r athrawiaeth ar draul y gweddill ohonom sy'n stryffaglio i ddod o hyd i'r geiriau priodol i gyfleu ein meddyliau. Yn ail, gall y ffordd yr ydym yn trafod ein hathrawiaeth naill ai ennill rhai neu ddieithrio eraill sydd naill ai heb ddeall, neu sy'n methu derbyn ein dadansoddiadau. Bydd rhai yn anorfod 'gyda ni' ac eraill yn ein herbyn. Yn drydydd, gall hyn oll ar brydiau ein harwain i ymfalchïo ar sail ein gwybodaeth ond hefyd ein dallu rhag gweithredu'n ymarferol 'y pethau trymach o'r gyfraith'.

Gwelsom yr wythnos diwethaf fod y disgyblion wedi ceisio arglwyddiaethu dros ei gilydd a mynnu eu hunanbwysigrwydd. Gwelsom mai ateb Iesu i'w ddisgyblion oedd cyfeirio 'pwy bynnag' sydd am fod yn wirioneddol 'fawr' at fywyd o wasanaeth sy'n canfod ac yn derbyn rhai bychain yn ei enw.

O droi i edrych yn fanylach ar ein darlleniad heddiw, canfyddwn fod geiriau Iesu yn herio gwerthoedd ei ddisgyblion ym mhob oes!

**'Ein dilyn ni ...' (adn 38–41)**

Faint o raniadau a brofwyd ymhlith Cristnogion wrth i ni fynnu bod yn rhaid i eraill 'ein dilyn ni'? Mor araf ydym i ddysgu nad 'ni' sy'n ganolog i ddyfodiad Teyrnasiad Duw ar y ddaear. Dilynwyr Iesu ydym, dim ots os ydym newydd ymateb i'w wahoddiad, 'dewch ataf fi', a newydd ymroi i'w ganlyn, neu os ydym wedi credu ynddo a cheisio'i ganlyn ers oes. Cawn ein galw, pwy bynnag ydym, o'i 'dderbyn' ef, i geisio deall geiriau ein meistr ac i efelychu patrwm ei fywyd drwy ein gweithredoedd.

Defnyddia'r disgyblion ddarlun rhyfelgar wrth gyfeirio at yr un oedd yn bwrw allan gythreuliaid yn enw Iesu. Gan ymateb i'r darlun penodol hwnnw, meddai Iesu, os yw un yn sefyll 'gyda ni' i wynebu lluoedd y fall, yna dylem beidio'i wahardd. Yn ffosydd y 'frwydr' ysbrydol yn erbyn nerthoedd a grymoedd y fall, nid teyrnfradwr yw'r un sy'n ymladd o blaid y Deyrnas. Yn wir, fod 'pwy bynnag' sy'n cyfrannu i deyrnasiad gweithredol y Meseia yn derbyn ei wobr.

Tybed, yn ein hoes seciwlar ni, nad chwilio am y rhai sydd dros y Gwaredwr y dylem ni ei wneud, yn hytrach na gosod ffiniau i wahoddiad a gras yr Arglwydd Iesu Grist?

**'Pwy bynnag ...' (adn 42–50)**

Dylem bwysleisio ar unwaith mai darluniadol yw'r holl gymariaethau a geir yn yr adnodau yma. Ffyrdd dramatig, eithafol ydynt o danlinellu'r cyfrifoldeb sydd gan y rhai sy'n 'credu ynof fi' tuag at eraill yn y lle cyntaf, yn ogystal â'n cyfrifoldeb o warchod ein bywyd ein hunain.

Mae Iesu wedi sôn eisoes am yr angen i godi ein croes i'w ganlyn (Marc 8:34 ymlaen). Yma gwelwn Iesu'n esbonio ychydig yn fwy helaeth ystyr yr her o fyw'n hunanaberthol.

Sylwn yn gyntaf fod y gwahoddiad yn gyffredinol i bawb: nid oes unrhyw un yn cael ei eithrio gan y gwahoddiad na'r alwad i weithredu yn enw Iesu. Mae'r gwahoddiad i 'bwy bynnag' sydd am ddilyn Iesu a'i ganlyn wneud hynny.

Fel y gwelsom eisoes, gall hunanddyrchafiad neu'r awydd i dra-arglwyddiaethu beri tramgwydd i 'rai bychain'.

Duw a ŵyr faint o gynulleidfaoedd a rwygwyd, neu faint o bobl a dramgwyddwyd, a faglwyd, a rwystrwyd rhag dilyn Iesu oherwydd agweddau gormesol, anfoesol neu hunanol aelodau oedd yn proffesu dilyn Iesu.

Cawsom, bob un ohonom sydd am ei ganlyn, ein galw i beidio â bod yn dramgwydd i eraill. Nid agwedd 'ffwrdd â hi' mo hyn. Nid dweud y mae Iesu nad oes gwerthoedd na dysgeidiaeth na moesoldeb i'w harddel gan ei ddisgyblion. Mae **sut** yr ydym yn arddel ein ffydd lawn bwysiced â **beth** a arddelir yn ein ffydd.

Ar lefel bersonol, mae'r hyn yr edrychwn arno (llygaid), yr hyn a wnawn (llaw), neu'r mannau a fynychwn (troed) oll yn medru peri i ni syrthio. Byddai'n well, er enghraifft, peidio ag edrych ar rai mathau o ffilmiau (megis rhai treisgar, neu rywiol) neu fynychu rhai llefydd neu ymwneud â rhai arferion na chael ein baglu ganddynt. Pwy fyddai'n dewis y gwerthoedd mwyaf bas, tomen sbwriel Gehenna, ar draul byw bywyd llawn?

Yn ôl Iesu, y mae i'r hyn a ddewiswn ganlyniadau! Galwyd disgyblion Iesu i fod yn halen y ddaear ac yn oleuni'r byd (Mathew 5:13). Yr halen hwnnw sy'n puro, a'r goleuni sy'n goleuo ac yn harddu. Mae bywydau o'r fath, drwy ein gweithredoedd da, i ogoneddu Duw – nid i'n dyrchafu ni.

Y mae ffyrdd o fyw sy'n arwain i'r Cristion 'golli ei flas' – i beri bod ein tystiolaeth yn llai effeithiol, neu hyd yn oed yn gwbl aneffeithiol yng ngolwg y byd.

Yn syml, ni all meddylfryd sy'n dyrchafu ein hunanbwysigrwydd, sy'n dilorni cyfraniad eraill, neu sy'n esgeulus o'n cerddediad ein hunain gerbron y byd, neu sydd mor debyg ei flas a'i sawr i'r byd fel na ellir gwahaniaethu rhyngddo a'r byd oddi amgylch, yn groes i ddysgeidiaeth heriol Iesu. Mae'r holl bethau hyn yn dramgwyddus. Meddai Iesu: yr her syml i ni yw hyn – 'Byddwch heddychlon.' Golyga hyn oll ailasesu ein gwerthoedd ein hunain, ein cyfeiriad, a'n hymwneud ag eraill.

**Darllen Rhufeiniaid 12:1–2; 9–21**

**Gweddi**
Arglwydd, greawdwr a chynhaliwr popeth sydd, cawsom ein galw gennyt i'th addoli, a'th ganlyn, a'th wasanaethu di. Maddau i ni pan geisiwn osod ein hunain fel yr eilun sydd i'w wasanaethu yn hytrach na thi. Arglwydd, dymunwn gefnu ar ein gwrthryfel, drwy Iesu Grist ein Harglwydd. Drwy dy Ysbryd Glân, dysga ni sut ddylem ymateb i'th alwad i wasanaethu eraill – y rhai bychain, y rhai anghenus. Dysga ni sut mae caru brawd a chwaer yn enw Iesu Grist. Dysga ni beth yw ystyr gofalu am dy greadigaeth di.

Cyflwynwn i ti ein gweddïau ar ran y byd a'i boenau ac ar ran y rhai sy'n dioddef yn enbyd heddiw. Clyw ni, waredwr, yn Iesu Grist, Amen.

**Emyn 805 'Rho i mi nerth'**

*RWJ*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru